Adroddiad ar

Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Heol Colcot
Y Barri
CF62 8YU

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Ysgolion pob oed |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1431 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 1179 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 192 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin | 29 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector pob oed (C) yw 18.9%) | 11.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn –y sector pob oed (C) yw 8.1%) | 4.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 37.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2021 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 18/03/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/04/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at yr iaith Gymraeg. Mae bron bob un o'r athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol â disgyblion ac yn darparu amgylchedd dysgu pwrpasol ble mae disgwyliadau uchel o ran ymddygiad ac ymgysylltiad. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud o leiaf y cynnydd disgwyliedig yn eu dysgu, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion yr 'Hafan'. Gwna leiafrif o ddisgyblion gynnydd cryf a buan o ganlyniad i addysgu effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog, gan gynnwys ystod helaeth o brofiadau allgyrsiol gwerthfawr. Mae'r rhain yn cael effaith sylweddol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafaredd disgyblion yn gryfder nodedig. Yn ogystal, mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth amlwg i ddatblygu medrau darllen disgyblion, gan gynnwys eu hannog i ddarllen er pleser a darparu cyfleoedd addas iddynt ddefnyddio eu huwch fedrau darllen mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth yn llwyddiannus. Mae gwaith y grŵp disgyblion lleiafrifoedd ethnig wedi dylanwadu'n fuddiol ar ddatblygu darpariaeth sydd yn dathlu amrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth staff o brofiadau bywyd go iawn disgyblion.

Mae darpariaeth rhifedd yr ysgol uchaf yn gryf ac yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn gwahanol bynciau. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion yr ysgol isaf gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol bob amser yn ddigon cyson. Er bod llawer o gyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau digidol ar draws y cwricwlwm, nid yw'r ddarpariaeth wedi'i chydlynu'n llawn i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol dros amser.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gymorth a chefnogaeth ar gyfer lles disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys darpariaeth yr 'Hafan', yn nodwedd gref.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr wedi sicrhau nifer o welliannau pwysig ac yn hyrwyddo diwylliant cryf o gydweithio a dysgu proffesiynol. Elfen nodedig o hyn yw'r prosiectau ymholi gwerthfawr a gyflawnir gan athrawon. Er bod presenoldeb wedi gwella'n

ddiweddar, mae lefelau presenoldeb dros amser yn rhy isel. Yn ogystal, mae’r ysgol yn gweithio gyda’r awdurdod lleol mewn perthynas â diffyg ariannol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

A1 Gwella presenoldeb

A2 Cysoni’r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a digidol ar draws yr ysgol

A3 Gweithio gyda’r awdurdod lleol i fynd i’r afael â’r diffyg yn y gyllideb

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â sut mae’r ysgol yn cynnal a chyfoethogi medrau Cymraeg disgyblion a sut mae’n defnyddio prosiectau ymholi o fewn ei rhaglen dysgu proffesiynol i wella addysgu a dysgu, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at yr iaith Gymraeg yn gadarnhaol iawn ac maent yn ei harddel gyda balchder a hyder mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Maent yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon a'u cyfoedion, a phan gânt y cyfle, maent yn cyfrannu'n frwdfrydig at drafodaethau dosbarth. Maent yn cydweithio a chefnogi ei gilydd yn effeithiol mewn parau a grwpiau bach. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n ddiwyd, yn canolbwyntio'n llwyddiannus am gyfnodau priodol ac yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith.

Mae bron bob un o'r athrawon ar draws yr ysgol yn meithrin perthynas waith gynhyrchiol â'r disgyblion. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac yn cynnig anogaeth gyson, sy'n cyfrannu at amgylchedd dysgu pwrpasol. Yn ogystal, mae ganddynt drefniadau dosbarth clir a disgwyliadau uchel o ran ymgysylltiad ac ymddygiad. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac yn darparu cyfarwyddiadau ac esboniadau clir sy'n cefnogi'r dysgu'n dda.

Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel. Maent yn cynllunio'n effeithiol gan sicrhau bod tasgau'n adeiladu'n rhesymegol ar ei gilydd ac yn herio disgyblion yn briodol. Defnyddiant amrywiaeth addas o weithgareddau i gyfoethogi profiadau disgyblion ac maent yn modelu gwaith yn effeithiol fel bod disgyblion yn deall y disgwyliadau. Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o gwestiynau addas i sicrhau ymgysylltiad a datblygu dealltwriaeth disgyblion. Yn ogystal, maent yn darparu adborth llafar pwrpasol sy'n cefnogi disgyblion i ddeall beth maent wedi ei wneud yn dda a sut i wella eu gwaith ymhellach. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a disgyblion yr 'Hafan', yn gwneud o leiaf y cynnydd sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed a'u gallu.

Yn y lleiafrif o sesiynau ble gwelir yr addysgu mwyaf effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a buan. Yn y sesiynau hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn angerddol am eu maes dysgu ac yn ysbrydoledig. Maent yn defnyddio cyfuniad effeithiol o gwestiynau caeedig ac agored, gan fynnu ymatebion estynedig gan ddisgyblion, sy'n dyfnhau'r dysgu yn fwriadus. Lle bo'n briodol, maent yn defnyddio strategaethau penodol addas i asesu dealltwriaeth pob disgybl ac yn defnyddio'r wybodaeth i addasu'r addysgu yn fedrus. Mae'r athrawon hyn yn

darparu profiadau dysgu a gweithgareddau sy'n diwallu anghenion disgyblion o bob gallu yn llwyddiannus.

Yn yr ychydig achosion ble mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl, nid yw disgwyliadau'r athrawon bob amser yn ddigon uchel. Maent, ar adegau, yn gor-gyfarwyddo'r dysgu neu'n cynnig esboniadau hir sy'n llesteirio datblygiad medrau dysgu annibynnol disgyblion. Yn ogystal, nid yw'r athrawon hyn yn holi disgyblion yn ddigon effeithiol er mwyn datblygu a dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae ansawdd adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion yn amrywio o fewn ac ar draws dosbarthiadau a phynciau. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn adnabod a dathlu'r cryfderau yng ngwaith disgyblion ac yn darparu adborth defnyddiol ar agweddau sydd angen eu gwella. Mae hyn yn cynnwys cywiro gwallau sillafu a gramadeg. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn ymateb yn briodol ac yn gwella eu gwaith yn fwriadus. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, nid yw'r adborth yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn ddigon effeithiol. Yn ogystal, mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn rhoi sylw i wallau ieithyddol a chamsyniadau pynciol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn ailadrodd y camgymeriadau hyn dros amser.

**Llythrennedd**

Mae gwaith yr ysgol i ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion trwy fentrau megis 'Llais y Fro' a 'Siarada Gymraeg gyda fi' wedi cael effaith nodedig ar ddatblygiad eu medrau llafaredd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn modelu iaith yn gadarn tra bod lleiafrif yn addysgu'n gelfydd iawn i sicrhau bod disgyblion ar draws yr ystod gallu yn mynegi eu hunain yn soffistigedig.

Yn yr ysgol isaf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu medrau llafaredd. Mae medrau siarad Cymraeg y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda wrth iddynt gaffael iaith a geirfa. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol isaf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu cynnig barn syml wrth drafod cysyniadau a digwyddiadau, ac fel arfer yn cefnogi eu barnau gyda rhesymau synhwyrol. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn hyderus yn y Gymraeg gan ddefnyddio iaith a geirfa dechnegol a phwnc berthnasol sydd o fewn eu profiad yn gywir.

Yn yr ysgol uchaf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon a chyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer yn cyfrannu at drafodaethau dosbarth ac wrth weithio mewn parau a grwpiau yn hyderus ac estynedig. Yn eu sesiynau Ffrangeg a Sbaeneg, mae llawer o ddisgyblion yn trafod yn briodol yn yr iaith darged gan ddefnyddio

brawddegau llawn. Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau llafar datblygedig iawn. Mae ganddynt eirfa hynod gyfoethog yn y Gymraeg a Saesneg ac maent yn mynegi eu hunain yn huawdl wrth drafod ac ymateb i gwestiynau. Dim ond ychydig o ddisgyblion sy’n dawedog neu’n cynnig atebion byr annatblygedig o gael eu holi gan eu hathrawon.

**Darllen**

Mae arweinwyr yn adnabod pwysigrwydd meithrin medrau llafaredd a darllen disgyblion ochr yn ochr â’i gilydd, i ddatblygu eu geirfa a chefnogi eu dealltwriaeth. Mae ysgogi diddordeb disgyblion i ddarllen er pleser yn rhan greiddiol o drefniadau’r ysgol i ddatblygu llythrennedd. Darperir dysgu proffesiynol pwrpasol ac adnoddau i staff er mwyn eu cefnogi i ddatblygu’r ddarpariaeth ac annog diwylliant cadarn o ddarllen. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddarllen rhannau o nofelau ac erthyglau yn ystod cyfnodau cofrestru er mwyn codi blys arnynt i ddarllen mwy. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddarllen testunau addas o ran her i ddatblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, mae llyfrgelloedd yr ysgol isaf a’r ysgol uchaf wedi’u hailsefydlu er mwyn darparu cyfleoedd rheolaidd i lawer o ddisgyblion fwynhau awyrgylch ddarllen bwrpasol yn ystod eu sesiynau Cymraeg a Saesneg. Mae strategaethau ysgol gyfan, megis datblygu medrau darllen ar goedd, yn cael effaith gadarnhaol ar hyder ac ymagwedd disgyblion tuag at ddarllen.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol gariad amlwg at ddarllen ac maent yn llawn brwdfrydedd wrth drafod llyfrau a thestunau. Maent yn mwynhau darllen a sgwrsio am eu llyfrau ac yn hoffi gwrando ar straeon sy’n cael eu darllen gan oedolyn. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn gynyddol hyderus mewn gwahanol gyd-destunau gan ddefnyddio strategaethau amrywiol er mwyn adnabod geiriau llai cyfarwydd. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol isaf, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus ac aeddfed. Maent yn trafod y rhesymau pam mae gwahanol destunau yn apelio atynt, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o’r hyn maent wedi ei ddarllen.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion o Flwyddyn 3 ymlaen yn hyderus wrth ddefnyddio eu medrau darllen sylfaenol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Nid oes gan ychydig ohonynt afael digon cadarn ar strategaethau i’w cefnogi i ddarllen a deall geiriau llai cyfarwydd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn lleoli gwybodaeth yn effeithiol gan anodi testunau ac ateb cwestiynau ffeithiol yn briodol. Gall lawer o ddisgyblion oedran uwchradd adnabod nodweddion arddull yn effeithiol a chrynhoi prif bwyntiau testunau yn hyderus. Datblygant eu huwch fedrau darllen yn gynyddol fedrus yn y sesiynau Cymraeg a Saesneg, gan ddadansoddi sut mae awduron yn creu awyrgylch, ac maent yn defnyddio dyfyniadau i gefnogi eu pwyntiau. Mae lleiafrif o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn gwneud hyn

yn hyfedr, er enghraifft wrth iddynt ddadansoddi araith Tynged yr Iaith i ysbrydoli eu hareithiau eu hunain ar ‘Miliwn o siaradwyr Cymraeg: Breuddwyd gwrach?’ yn y sesiynau Cymraeg. Mae’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu huwch fedrau darllen mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn datblygu’n addas, er nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu’r medrau hyn yn gynyddol dros amser.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yr ysgol isaf yn datblygu’n dda yn y Gymraeg a Saesneg dros amser. Mae disgyblion y dosbarth meithrin yn caffael medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus wrth arbrofi’n rhydd pan fyddant yn gwneud marciau gan ddefnyddio ystod eang o offer a chyfryngau priodol. Erbyn brig yr ysgol isaf, mae disgyblion yn ysgrifennu’n aeddfed mewn ystod dda o ffurfiau a chyd-destunau. Mae ychydig yn dewis geirfa ddychmygus a mentrus i gynhyrchu darnau ysgrifennu trawiadol sy’n ystyried y gynulleidfa’n ofalus.

Yn yr ysgol uchaf, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol sydd wedi eu strwythuro yn effeithiol yn eu sesiynau Cymraeg a Saesneg. Mae’r disgyblion hyn yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o sut i ddefnyddio technegau ieithyddol yn effeithiol i greu effaith ar y darllenydd. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu’n soffistigedig mewn myrdd o ffurfiau ac yn dangos dealltwriaeth eang o sut i ysgrifennu at bwrpas a gwahanol gynulleidfaoedd. Er enghraifft, yn eu sesiynau Saesneg, mae disgyblion yn strwythuro dadleuon yn aeddfed a chelfydd i gyflwyno safbwyntiau am reolau ysgol. Yn ogystal, ysgrifenna leiafrif ddarnau creadigol graenus gan lwyddo i ddethol geirfa ac ymadroddion yn feistrolgar. Mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yr ysgol uchaf yn ysgrifennu darnau estynedig priodol gan drefnu eu gwaith yn synhwyrol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg esgeulus neu maent yn or-ddibynnol ar ganllawiau strwythuredig.

**Rhifedd**

Mae’r ddarpariaeth yn cefnogi llawer o’r disgyblion yn yr ysgol isaf i ddatblygu eu medrau mathemateg a rhifedd yn briodol. Mae disgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn cyfrif gwrthrychau’n hyderus ac yn cychwyn adio rhifau syml yn llwyddiannus. Erbyn brig yr ysgol isaf, mae disgyblion yn defnyddio ystod o ddulliau cyfrifo’n bwrpasol ac yn esbonio’u dewis o ddull yn hyderus. Fodd bynnag, ychydig o gyfleoedd sydd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu ac i ddatrys ystod lawn o broblemau erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol isaf.

O fewn sesiynau mathemateg yn yr ysgol uchaf, mae’r ddarpariaeth gadarn yn cefnogi datblygiad medrau mathemateg disgyblion yn dda. Mae’r gwersi’n cynnig cyfleoedd

eang i ddisgyblion gymhwyso eu medrau, a dyfnhau eu dealltwriaeth trwy ddatblygu'r pum hyfedredd. Ar draws y cwricwlwm yn yr ysgol uchaf, ceir cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif priodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gysyniadau siâp a mesur. Maent yn datrys problemau aml-gam a phroblemau mewn cyd-destun yn hyderus. Er enghraifft, maent yn symleiddio syrdiau gan ystyried gwahanol ddulliau a dewis y rhai mwyaf effeithlon i'w defnyddio yn ôl y sefyllfa. Nid yw medrau datrys problemau ychydig o ddisgyblion wedi datblygu'n ddigonol gan nad oes ganddynt fedrau sylfaenol digon cadarn neu ddealltwriaeth ddigon dwfn o gysyniadau rhifiadol. Pan gânt y cyfle, mae llawer yn dadansoddi data a graffiau yn briodol i ddod i gasgliadau synhwyrol.

**Digidol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol isaf yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau digidol. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol ynghylch sut i weithio'n ddiogel ar-lein ac maent yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yr ysgol uchaf yn datblygu eu medrau'n briodol ar draws y cwricwlwm. Yn eu sesiynau technoleg ddigidol, maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth o systemau codio soffistigedig ac yn dechrau ehangu eu dealltwriaeth o sut gellir defnyddio deallusrwydd artiffisial i addasu delweddau. Mewn pynciau eraill, mae'r disgyblion yn defnyddio taenlenni'n addas i arddangos data mewn graffiau ac yn creu fideos gyda sain a cherddoriaeth yn llwyddiannus. Er bod cyfleoedd amrywiol ar draws y pynciau, nid ydynt wedi'u cynllunio'n ddigon strategol er mwyn datblygu'r medrau'n gynyddol dros amser.

**Cwricwlwm**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm, sy'n seiliedig ar hyrwyddo disgwyliadau uchel ac adlewyrchu gwerthoedd craidd yr ysgol i ddatblygu disgyblion gwydn a pharchus o fewn diwylliant Cymreig. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm uchelgeisiol a chyfoethog sy'n sicrhau dilyniant priodol, o 3 i 19 oed. Mae'r ysgol wedi cydweithio'n fuddiol ag ysgolion cynradd partner i gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd yn gynyddol a gwneud cynnydd yn eu dysgu. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion yr ysgol isaf fanteisio ar arbenigedd pynciol staff yr ysgol uchaf, er enghraifft trwy sesiynau addysg gorfforol a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae disgyblion yn dechrau eu cwrs TGAU Gwyddoniaeth o ddechrau Blwyddyn 9, sy'n golygu nad yw'r ysgol yn dilyn canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn llawn.

Cynigir ystod eang o bynciau cyffredinol a galwedigaethol ym Mlwyddyn 10 ac 11, gan gynnwys dawns, cymdeithaseg a Sbaeneg ar gyfer busnes. Yn y chweched dosbarth, ceir dewis eang o gyrsiau gan gynnwys peirianneg, gwleidyddiaeth, troseddeg a dysgu yn yr awyr agored.

Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol trwy ddysgu am gydraddoldeb a herio rhagfarnau trwy'r cwricwlwm. Er enghraifft, datblygir dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth ethnig ac amryfal hunaniaethau yng nghyd-destun Cymru a'r byd ehangach yn llwyddiannus.

### Ciplun: Strategaeth gwrth-hiliaeth i ddatblygu'r ddarpariaeth gwricwlaidd

Mae'r cwricwlwm yn addysgu disgyblion am hanes a phrofiadau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn effeithiol. Mae grŵp disgyblion lleiafrifoedd ethnig wedi dylanwadu'n fuddiol ar arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth gwricwlaidd trwy godi ymwybyddiaeth staff o'u profiadau bywyd go iawn. Mae'r grŵp ffocws hwn wedi cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu polisi gwrth-hiliaeth yr ysgol. Yn ogystal, mae sesiynau datblygiad proffesiynol a phrosiectau ymchwil ar gyfer staff wedi darparu cyfleoedd cadarn i staff ddyfnhau eu dealltwriaeth o wrth-hiliaeth ac addasu'r ddarpariaeth gwricwlaidd o ganlyniad.

Yn yr ysgol isaf, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i astudio taith bywyd unigolion lleol sydd o gefndiroedd ethnig amrywiol. Yn eu sesiynau Cymraeg, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o fraint pobl wyn, a phrofiadau a safbwyntiau cymunedau lleiafrifol, trwy ddarllen testunau gwrth-hiliaeth. Mae disgyblion yn astudio cerddi o wahanol ddiwylliannau yn eu sesiynau Saesneg, tra bod yr adran ieithoedd rhyngwladol yn hyrwyddo amrywiaeth a pharch tuag at ddiwylliannau eraill drwy ddefnyddio adnoddau a straeon o wahanol wledydd. Rhoddir pwyslais ar rannu straeon cadarnhaol yn ogystal ac adrodd hanes gorthrwm pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yn y gorffennol trwy wersi pynciau'r dyniaethau.

Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad creadigol a diwylliannol disgyblion yn bwrpasol. Gwneir hyn trwy sesiynau o fewn y celfyddydau perfformio a mynegiannol a thrwy gyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr fel aelodaeth o gorau, cystadlu mewn Eisteddfodau, a pherfformio mewn cyngherddau a sioeau ysgol. Mae darpariaeth allgyrsiol eang yr ysgol yn gryfder nodedig. Mae'r cyfleoedd allgyrsiol hyn wedi eu cynllunio i ategu'r gwaith cwricwlaidd, gwreiddio gwybodaeth a dod â'r dysgu yn fyw i'r disgyblion. Er enghraifft, mae'n cynnwys ymweliadau i'r Gurdwara yng Nghaerdydd fel rhan o gynllun crefydd,

gwerthoedd a moeseg, a chystadlaethau siarad cyhoeddus fel rhan o ddarpariaeth yr adran Saesneg ar gyfer y disgyblion mwyaf abl a thalentog.

Mae'r cwricwlwm iechyd a lles wedi ei gynllunio'n feddylgar er mwyn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion. Maent yn datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw, fel bwyta'n iach, iechyd meddwl, hylendid cwsg a chamddefnyddio sylweddau. Ceir hefyd gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am oddefgarwch, rhywioldeb a chydraddoldeb, er enghraifft trwy ystyried cyfraniad merched at gymdeithas.

**Chweched Dosbarth**

Dangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth agweddau cadarnhaol ac aeddfed tuag at eu hastudiaethau. Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd yn ystod eu sesiynau gan arddangos gwytnwch, dyfalbarhad ac aeddfedrwydd wrth gydweithio. Maent yn aml yn trafod eu gwaith yn soffistigedig, gan ddangos dealltwriaeth dda o bynciau a chysyniadau cymhleth. Yn ogystal, maent yn arddangos chwilfrydedd wrth holi cwestiynau i ddyfnhau eu dealltwriaeth eu hunain ac ymateb i adborth eu hathrawon.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a gofalgar ble gwelir perthynas waith gref a pharchus rhwng y disgyblion a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac mae aeddfedrwydd ac ymddygiad rhagorol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryfder nodedig. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cyd-chwarae'n  llwyddiannus a dangosa'r disgyblion hŷn barch at eu cyfoedion. Dangosant agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac awch i ddysgu. Maent yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn defnyddio'r iaith ym mhob agwedd o'u bywyd yn yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at greu amgylchedd gynhwysol a chefnogol sy'n meithrin ymdeimlad cryf o berthyn ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos a hunaniaeth yr ysgol.

Mae cyfraniad llais y disgybl i waith yr ysgol yn gryfder. Mae'r disgyblion yn arwain Senedd yr ysgol ac yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn fforymau megis y fforwm Cymreictod, eco, elusennau, cydraddoldeb ac ysgol isaf. Caiff barn pob disgybl ei chasglu'n systematig drwy holiaduron a sesiynau cofrestru strwythuredig. Fodd bynnag, nid yw'r Senedd yn cyfathrebu effaith eu gwaith yn ddigon cyson i weddill disgyblion yr ysgol.

Mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol yn caniatáu i ddisgyblion  wneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol, ehangu eu gorwelion a datblygu medrau personol

a chymdeithasol buddiol. Yn ogystal, mae disgyblion yn elwa o ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i arwain trwy fentrau fel ‘Urddas Misglwyf’, ‘Menter maths’ a ‘Siarada Gymraeg gyda fi’. Mae llawer yn arddangos medrau arwain aeddfed a chyfrifol, gan ddylanwadu’n gadarnhaol ar brofiadau eu cyd-ddisgyblion ac ethos cynhwysol yr ysgol.

Mae gan staff adnabyddiaeth dda iawn o’r disgyblion ac maent yn defnyddio amrediad eang o wybodaeth, gan gynnwys data perthnasol, i ymateb i’w hanghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol yn gynnar ac effeithiol. Mae staff yn deall eu rôl i hyrwyddo lles disgyblion ac mae strwythur graddedig o gefnogaeth ar gael ar gyfer disgyblion bregus. Mae’r darpariaethau lles ar draws yr ysgol yn cynnig ymyraethau buddiol sydd wedi eu teilwra’n grefftus ar gyfer disgyblion unigol er mwyn eu cefnogi gyda’u hanghenion emosiynol. Mae staff perthnasol yn cydweithio’n dda ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi disgyblion sydd mewn perygl o ddatgysylltu o addysg. Mae gan y staff hyn brosesau effeithiol i ymateb i anghenion disgyblion a chynllunio cefnogaeth bwrpasol iddynt. Maent yn sicrhau cydbwysedd rhwng cefnogi anghenion lles unigolion a datblygu eu dycnwch, eu hannibyniaeth a’u parodrwydd i ddysgu. Mae’r tîm diogelu a lles yn cwrdd yn gyson i drafod anghenion disgyblion, monitro effeithiolrwydd y rhaglenni ymyrraeth ac addasu’r ddarpariaeth, yn ôl yr angen.

Yn ystod cyfnod y pandemig, roedd y gostyngiad ym mhresenoldeb yr ysgol yn llai na’r hyn a welwyd yn genedlaethol. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd academaidd 2023-2024 a 2024-2025, roedd cyfradd gwella presenoldeb yn araf iawn ac roedd presenoldeb disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn sylweddol is nag mewn ysgolion tebyg. Dros y deunaw mis diwethaf, mae’r ysgol wedi gweithredu’n bwrpasol i wella’r agwedd hon gan gynyddu’r capasiti i gefnogi a thynhau’r prosesau monitro presenoldeb disgyblion. Bellach, gweithredir strwythur o ymyraethau graddedig. Mae holl staff yr ysgol yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi presenoldeb ac mae’r ymyraethau yn cynnwys cyd-weithio buddiol gyda’r awdurdod lleol ac asiantaethau allanol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r ysgol wedi canolbwyntio ar adeiladu perthnasau cadarnhaol gyda theuluoedd y rhai sydd yn absennol yn gyson, i oresgyn unrhyw rwystrau rhag mynychu’n rheolaidd. O ganlyniad, mae data heb ei ddilysu yn dangos bod cyfraddau presenoldeb, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, wedi gwella’n sylweddol, er eu bod yn parhau’n  is na’r lefelau cyn y pandemig.

Darperir hyfforddiant cyson addas i’r holl staff ar faterion diogelu. Ceir rhaglen bwrpasol o weithgareddau amrywiol ar draws y flwyddyn i sicrhau bod disgyblion yn deall sut i gadw’n ddiogel a gwneud dewisiadau doeth. Mae hyn oll wedi cyfrannu at

greu diwylliant addas o ddiogelu yn yr ysgol, ble mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd gref. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer sicrhau cynhwysiant fel bod disgyblion sydd ag anawsterau dysgu yn cael cefnogaeth drylwyr ac effeithiol er mwyn datblygu hyder, a gwneud cynnydd yn gymdeithasol ac yn academaidd.

Mae'r tîm ADY yn cydweithio'n effeithiol â rhieni a gofalwyr i sicrhau bod gan yr ysgol wybodaeth drylwyr am ddiddordebau disgyblion er mwyn addasu'r cwricwlwm fel ei fod yn gynhwysol a hygyrch iddynt. Maent yn defnyddio data yn bwrpasol er mwyn mesur cynnydd dros amser a gwerthuso effaith gwahanol ddulliau dysgu ac ymyraethau. Cynhwysir amrediad eang o dystiolaeth o fewn cynlluniau datblygu unigol manwl a defnyddir hyn i werthuso cynnydd disgyblion dros amser. Rhoddir hyfforddiant buddiol i staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymarfer dulliau addysgeg cynhwysol sy'n ystyriol o anghenion pob un disgybl. Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r modd mae arweinwyr a staff yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion sydd ag ADY fwynhau'r amrediad llawn o brofiadau allgyrsiol sydd ar gael.

Mae disgyblion sy'n ei chael hi'n anodd dygymod ag addysg prif ffrwd yn cael cefnogaeth fuddiol er mwyn cynnal eu lles a datblygu hunanhyder. Mae'r 'Hafan', sef darpariaeth yr awdurdod lleol, yn darparu cefnogaeth arbenigol ar gyfer disgyblion sydd ar y sbectrwm awtistiaeth. Mae staff yr 'Hafan' yn sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad cyson i ddosbarthiadau prif ffrwd i ddilyn eu cyrsiau, lle bo'n briodol. Ar draws yr ysgol, mae tîm o staff cymorth medrus yn cydweithio'n effeithiol ag athrawon er mwyn cynnig cefnogaeth i ddisgyblion yn ôl y galw yn y dosbarthiadau prif lif.

Mae gan yr ysgol drefniadau pontio trylwyr ar gyfer cefnogi disgyblion yr ysgolion cynradd partner wrth iddynt drosglwyddo i Flwyddyn 7. Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer cynghori disgyblion wrth iddynt baratoi ar gyfer y cam nesaf o'u bywyd.

## Arwain a gwella

Mae gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir wedi ei seilio'n gadarn ar werthoedd parch, Cymreictod a dyfalbarhad. Maent yn cyfathrebu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae ethos o gydweithio effeithiol a disgwyliadau uchel i sicrhau bod pob disgybl yn cael yr addysg orau a chyfleoedd cyfoethog er mwyn gwireddu eu

breuddwydion, yn unol â'r arwyddair 'Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd'. Mae'r pennaeth yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn gadarnhaol a strategol, gan barhau i ddatblygu arweinyddiaeth ar gyfer ysgol pob oed.

Yn ddiweddar, yn dilyn newidiadau yn yr uwch dîm arwain, mae cyfrifoldebau uwch arweinwyr wedi eu haddasu a'u dyrannu'n synhwyrol i gyd-fynd yn gyffredinol ag arbenigedd personol. Mae'r trefniadau rheolaeth llinell yn eglur a chytûn. Mae cyfarfodydd cyswllt rheolaidd yn gyfle buddiol i drafod materion perthnasol, gan gynnwys deilliannau disgyblion, y ddarpariaeth a chynnydd yn erbyn cynlluniau gwella. Rho'r rheolwyr cyswllt gefnogaeth glir, her briodol a chyngor adeiladol. Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff, gyda chyswllt pwrpasol â dysgu proffesiynol.

Mae'r ysgol yn datblygu diwylliant o ddysgu proffesiynol yn llwyddiannus. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â blaenoriaethau ysgol gyfan, adrannol ac anghenion hyfforddiant staff. Mae arweinwyr yn elwa o gyfleoedd buddiol i gydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill drwy rwydweithiau amrywiol. Mae staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a ddarperir, gan gynnwys hyfforddiant ar agweddau penodol ar addysgeg. Maent yn elwa o gyfleoedd defnyddiol i rannu arfer dda yn ystod cyfarfodydd a gwylio ffilmiau byr o'u cyd-athrawon yn modelu strategaethau addysgu llwyddiannus. Mae athrawon yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gydweithio mewn triawdau ar brosiectau ymholi penodol, gan gynnwys prosiectau ar adborth byw, 'Llais y Fro' a gwrth-hiliaeth. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, mae staff yn rhannu canfyddiadau'r prosiectau hyn gan ystyried effaith y gwaith ar wella safonau disgyblion.

Mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol megis lliniaru effaith tlodi, hyrwyddo a datblygu Cymreictod a medrau darllen. Maent yn darparu'n effeithiol ar gyfer y disgyblion hynny sydd o aelwydydd incwm isel. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod y cwricwlwm yn addas iddynt a bod mynediad cyfartal at deithiau allgyrsiol a phreswyl. Yn ychwanegol, maent yn sicrhau bod gwisg ysgol briodol ar gael a bod cludiant am ddim yn dilyn gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae' r Gymraeg a Chymreictod yn allweddol i fywyd yr ysgol. Hyrwyddir hyn yn arbennig trwy ddisgwyliadau uchel, gweithgareddau Eisteddfodol, chwaraeon a chynllun 'Siarada Gymraeg gyda fi'.

Mae arweinyddiaeth yr 'Hafan' wedi datblygu o ganlyniad i gydweithio agos 'r awdurdod lleol ac ysgolion partner. Mae staff yr 'Hafan' yn elwa o ddysgu proffesiynol buddiol er mwyn bodloni anghenion disgyblion sydd â mynediad i'r ddarpariaeth.

Mae'r strategaeth ysgol gyfan o 'Ganfod, Rhannu, Cysoni' yn golygu bod staff yn ymwybodol o'r cyswllt rhwng gweithgareddau hunanwerthuso, rhannu arfer dda a

chynllunio gwelliant. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hunanwerthuso defnyddiol, megis arsylwadau sesiynau, teithiau dysgu, craffu ar lyfrau a gwrando ar ddysgwyr. Defnyddir y canfyddiadau i lunio blaenoriaethau ysgol gyfan. Mae cyswllt clir rhwng y blaenoriaethau hyn â ffocws teithiau dysgu, megis gwerthuso effaith strategaethau llafar ‘Llais y Fro’ a datblygu uwch fedrau darllen disgyblion.

Mae arweinwyr canol wedi elwa o gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i gynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd a defnyddio’u canfyddiadau i gynllunio ar gyfer gwelliant. Maent wedi cael cyfleoedd buddiol i gyd-arsylwi gydag aelodau o’r uwch dîm arwain a thrafod canfyddiadau wrth graffu ar waith disgyblion. Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr canol ddealltwriaeth dda o brif gryfderau a meysydd i’w gwella eu hadrannau ac maent yn defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio gwelliant. Mae arweinwyr canol cwricwlaidd a bugeiliol yn ymgymryd â’u gwaith gydag egni a brwdfrydedd. Maent yn dadansoddi ystod eang o ddata, gan gynnwys data cyrhaeddiad a phresenoldeb, yn ofalus, gan lunio cwestiynau am berfformiad yr ysgol. Mae llawer o’r arweinwyr yn rhoi ystyriaeth lawn i ganfyddiadau o’r ystod o weithgareddau sicrhau ansawdd yn bwrpasol. Er hyn, mae ychydig o amrywiaeth ym mha mor dda mae arweinwyr yn arfarnu’r ddarpariaeth yn ôl ei heffaith ar ddysgu disgyblion. O ganlyniad, nid yw ychydig o arweinwyr bob amser yn adnabod yr union agweddau sydd angen eu gwella yn ddigon miniog.

Mae’r corff llywodraethol yn cefnogi’r ysgol yn effeithiol ac yn deall ei rôl fel cyfaill beirniadol. Mae nifer o’r llywodraethwyr yn brofiadol , yn cynnig arbenigedd ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o waith ysgol pob oed, sy’n eu galluogi i gynnig cefnogaeth a her addas i arweinwyr. Mae ychydig o lywodraethwyr yn ymgymryd â theithiau dysgu pwrpasol, ac yn rhannu’r canfyddiadau’n briodol gyda’r corff llawn. Maent yn cyfrannu’n addas at lunio blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol ac yn monitro cynnydd yn erbyn y rhain yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn monitro a rheoli’r gyllideb yn briodol er gwaethaf heriau ariannol diweddar. Serch hynny, mae’r ysgol mewn diffyg ariannol sylweddol ac mae uwch arweinwyr yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i adfer y sefyllfa. Gwneir defnydd priodol o’r grant datblygu disgyblion, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion sy’n gymwys i brydau ysgol am ddim yn ystod y flwyddyn addysgol gyfredol. Yn gyffredinol, mae’r disgyblion hyn yn perfformio’n  well na’u cyfoedion mewn ysgolion tebyg ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n briodol â rhieni trwy amrywiaeth o gyfryngau. Mae'r rhain yn cynnwys neges fideo'r pennaeth i rieni, cardiau post clod, adroddiadau i rieni am gyrhaeddiad eu plant a chylchlythyrau i ddathlu llwyddiannau. Dros amser, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu, datblygiad medrau llafar a darllen a'r ddarpariaeth i gefnogi lles disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Er bod arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro a rheoli'r gyllideb yn briodol, mae gan yr ysgol ddiffyg cyllidol sylweddol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  01/07/2026